



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Swansea Trials Unit
Uned Dreialon Abertawe

Uned Dreialon Abertawe



2019-20

Adroddiad



Cydnabyddiaethau: Arianwyr a Chydweithredwyr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



MANCHESTER
1824
The University of Manchester



DIABETES RESEARCH
UNIT CYMRU

UNED YMCHWIL
DIABETES CYMRU

NHS
National Institute for
Health Research



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
University Health Board

CARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGOL
CAERDYDD



ESRC Wales Doctoral Training Partnership
Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC



CNH
Centre for
NanoHealth



UNIVERSITY OF
LIVERPOOL



PSSRU
Personal Social Services Research Unit



Bristol Myers Squibb™

tenovus
cancer care
gofal cancer

Rutherford
Innovations abbvie



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

Cynnwys

Rhagair.....	2
Beth rydym ni'n ei wneud.....	2
Blaenoriaethau Strategol STU.....	3
Crynodeb Lleyg	5
Crynodeb Gweithredol.....	7
Pecynnau Gwaith (PG).....	8
PG1: Datblygu a Rheoli'r Uned	8
PG2: Datblygu astudiaethau newydd	10
PG3: Goruchwyllo astudiaethau a ariennir	12
PG4: Lledaenu ac ymgysylltu	13
PG5: Cynyddu gallu ar gyfer ymchwil	15
PG6: Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil	17
Cyflawniadau Allweddol.....	19
Casgliadau ac Edrych i'r Dyfodol.....	20

Rhagair


Beth rydym ni'n ei wneud

Ariennir Uned Dreialon Abertawe (STU) gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Mae STU yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o ymchwil a gweithgareddau cynyddu gallu, â'r nod o ysgogi gwelliannau iechyd yng Nghymru a'r tu hwnt.

Gwerthfawrogir ein Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) yn fawr gan ein cleientiaid ac mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau bod ein partneriaid yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol yn cael eu cefnogi bob cam o'r ffordd i gynllunio a chynnal treialon clinigol a dadansoddi a llunio adroddiadau ar sail y data o'r rhain ac astudiaethau eraill a gynlluniwyd yn ofalus.

Wrth i'r uned dyfu, cynyddodd hefyd ein gallu i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr a dylanwadu ar sut caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu darparu yng Nghymru.



Rydym wedi bod yn cysylltu â Hayley bob dydd, nifer o weithiau yn aml! Bob amser rwy'n hynod ddiolchgar iddi am ateb mor gyflym, am fanylder a safon ei hymateb a'r ffaith ei bod, yn gyffredinol, yn bleser gweithio gyda hi.

- *Iain Whitaker, Llawfeddyg Plastig ac Ailadeiladu Ymgynghorol, SB UHB*

Ers i'r Uned gael ei sefydlu, rydym wedi blaenoriaethu cynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ym mhob agwedd ar ei hastudiaethau. Rydym yn falch iawn o'r effaith mae ein Pwyllgor Cyngor ar Ymchwil Poblogaethau (PARC) wedi'i chael wrth hwyluso mynediad ymchwilwyr at gyfleoedd o ansawdd uchel i gynnwys cleifion a'r cyhoedd.

Blaenoriaethau Strategol STU



Mae Uned Dreialon Abertawe wedi bod gyda ni bob cam o'r ffordd, o'r cysyniad, y cais am gyllid, rheoli a dadansoddi data - allwn ni ddim fod wedi cynnal Treial HART hebddyn nhw.

- *Yr Athro Jared Torkington, Llawfeddyg Colorefrol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*



Mae Uned Dreialon Abertawe yn darparu plattform pwysig ar gyfer ymchwil sy'n cael ei chynnal yma yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r staff yn gweithio gydag amrywiaeth eang o glinigwyr a darparwyr gofal iechyd a chymdeithasol eraill drwy'r GIG a phartneriaid trydydd sector ac mae'n ffynhonnell cyhoeddiadau ac adroddiadau o safon uchel. Mae STU yn galluogi ein cydweithwyr academiaidd i ymgysylltu â'r gymuned ehangach ac mae'n darparu llwybr ardderchog ar gyfer newidiadau i bolisi ac ymarfer ym maes gofal iechyd.

- *Dr Laura Healy, Cydlynnydd y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe*



7 astudiaeth newydd wedi'u cychwyn
6036 o gleifion wedi'u cofrestru ar astudiaethau

DENU A CHEFNOGI
TREIALON GRADDFA
FAWR AC
ASTUDIAETHAU
TRYLWYR ERAILL, O
SAFON UCHEL A
ARIENNIR YN ALLANOL

LLEDAENU
CANFYDDIADAU A
CHYFAWNI EFFAITH
UCHEL Y GELLIR EI
DANGOS DRWY
YMCHWIL

21 papur newydd wedi'u cyhoeddi
1122 o bobl wedi mynychu digwyddiadau



37 astudiaeth ar y gweill eleni:
1 Treial Clinigol o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliol (CTIMP),
8 Hap-dreial wedi'u rheoli (RCTs)

CYNNAL TREIALON
GRADDFA FAWR O
SAFON UCHEL AC
ASTUDIAETHAU
TRYLWYR ERAILL AR
AMSER

CYNYDDU GALLU AR
GYFER YMCHWIL

Cefnogi 14 myfyriwr PhD a 5 myfyriwr MD
10 astudiaeth Llwybr i Bortffolio wedi'u cefnogi, 5 yn aros am benderfyniad ynghylch cyllido astudiaethau dilynol
Prosiect a ariennir gan Moondance sy'n newid y ffordd o hyfforddi nyrsys-endosgopwyr

O'r dechrau i'r diwedd, darparodd Uned Dreialon Abertawe (STU) y math o oruchwyliaeth annibynnol a chyfeillgar roedd ei hangen i gwblhau ein hap-dreial wedi'i reoli mawr, ar nifer o safleoedd, o driniaeth newydd ar gyfer iselder ysbryd anhydrin (prosiect RefraMED). Sicrhodd y tîm yn STU fod ein treial yn cyflawni'r safonau uchaf a chymerodd ran weithredol ym mhob cam o'r astudiaeth. Roedd eu cyngor bob amser yn ddefnyddiol, yn ymarferol ac yn ysgolheigaidd; o ganlyniad, roedd y dasg gymhleth o gynnal treial clinigol yn brofiad gwobrwyol a llwyddiannus, o'r dechrau i'r diwedd.


- *Yr Athro Thomas Lynch, Prif Ymchwilydd Treial RefraMED, Prifysgol Southampton*

Mae STU wedi rhoi cefnogaeth wych i'm gyrfa academiaidd drwy fy nghynorthwyo i gynllunio fy astudiaeth a chefnogi fy ngheisiadau am grantiau er mwyn i mi allu ymgymryd â'm hymchwil. Maen nhw wedi parhau i gefnogi datblygiad fy astudiaeth drwy gynnig mentora a goruchwyliaeth academiaidd. Gan nad oedd gennyf brofiad o ymchwil, mae STU wedi meithrin fy sgiliau ymchwil drwy fentora agos.

- *Dr Anwen Williams, Llawfeddyg Colorefrol, BIP Bae Abertawe*



Who We Are



Crynodeb Lleyg



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Swansea Trials Unit
Uned Dreialon Abertawe

Sefydlwyd Uned Dreialon Abertawe (STU) ym Mhrifysgol Abertawe yn 2015. Ariennir STU yn rhannol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (cangen ymchwil o Lywodraeth Cymru). Mae'r arian hwn yn galluogi STU i gefnogi ymchwilwyr ac i ddatblygu eu syniadau ymchwil. Mae STU yn dod â phobl ynghyd i gyflawni ymchwil o'r safon uchaf.

Mae STU yn rhan o grŵp o unedau treialon cofrestredig ledled y DU. Mae hyn yn golygu bod STU wedi profi bod ganddi:

- 👑 y drefniadaeth ofynnol i gynnal ymchwil;
- 👑 y staff priodol sydd wedi'u hyfforddi i ymgymryd â'i gwaith;
- 👑 prosesau a strwythurau i sicrhau bod astudiaethau'n ddiogel;
- 👑 systemau i sicrhau bod y data a gesglir yn ddibynadwy.

UKCRC
Registered
Clinical
Trials Units



Mae'r term "ymchwil" yn cwmpasu popeth, o ddosbarthu holiaduron i brofi cyffuriau newydd. Nod ymchwil STU yw gwella triniaethau a gofal ar gyfer y cyhoedd. Mae STU yn gweithio gyda'r cyhoedd i gynllunio ei hymchwil ac i amlygu safbwynt cleifion/y cyhoedd. Fel hyn, gwneir ymchwil "gyda'r bobl" yn hytrach nag "i'r bobl".


Dyma rai mathau o ymchwil:

Treialon clinigol a ddefnyddir mewn meddygaeth i gymharu mathau gwahanol o driniaethau a phroffion diagnostig. Eu nod yw darganfod a fydd triniaeth neu weithdrefn newydd:

- 👑 yn ddiogel;
- 👑 yn achosi sgil effeithiau;
- 👑 yn gweithio'n well na (neu gystal â) thriniaeth sydd ar gael eisoes.



Ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol - nod y math hwn o ymchwil yw deall sut i helpu pobl i reoli eu cyflyrau tymor hir. Er enghraifft, efallai fod gofalwyr am ddeall sut gallant helpu pobl i fyw'n annibynnol yn hirach.



Ein nod yw helpu ymchwilwyr i roi eu syniadau ar waith. Mae STU yn gweithio gyda nhw i ddeall sut i ddarparu tystiolaeth i ateb eu cwestiynau.

Mae STU yn helpu ymchwilwyr i ddatblygu disgrifiad o'r problem ac i esbonio eu strategaeth i'w datrys. Wedyn gall STU feddwl am ffordd o gynllunio astudiaeth a fydd yn gweithio'n ymarferol yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol.

Mae STU hefyd yn cynorthwyo ymchwilwyr drwy'r broses o sicrhau bod yr astudiaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol a diogelwch. Mae'r ffordd hon o weithio, lle mae STU yn darparu cyngor a gwasanaeth cydlynus ac mae ymchwilwyr yn cyfrannu eu harbenigedd iechyd/gofal cymdeithasol, yn helpu i sicrhau prosiectau llwyddiannus.

PWY?

Mae pob un o'n hastudiaethau yn dechrau yn yr un modd. Mae cwestiwn gan rywun sy'n gweithio yn y GIG neu ym maes gofal cymdeithasol ac mae eisiau gwybod yr ateb.

Mae sawl ffurf gan y cwestiynau hyn:

Sut gallwn roi'r gofal gorau?

Pa driniaeth sydd orau?

Beth yw'r lleoliad gorau i roi gofal?

Sut gallwn ni wella'r hyfforddiant rydym yn ei roi i'n staff?



Ein rôl yw dyfeisio ffyrdd o ateb y cwestiynau hyn a ffyrdd o brofi'r atebion posib. Mae sawl ffordd o wneud hyn, gan gynnwys cynnal arolygon a threialon cyffuriau.



Mae staff STU yn gweithio'n agos gyda'n cynrychiolwyr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, a chydag ein Grŵp Cynghori ar y Cyd (JAG) i sicrhau bod yr ymchwil rydym yn ei gwneud yn diwallu anghenion y cyhoedd.

Fel uned dreialon, gall STU helpu ymchwilwyr ar bob cam yn ystod eu taith ymchwil..

SUT?



Mae STU yn gweithio gyda'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i ddylanwadu ar sut caiff y gwasanaethau hyn eu darparu yng Nghymru. Un ffordd o wneud hyn yn effeithiol yw drwy ymchwil i sicrhau mai triniaethau a gwasanaethau profedig yn unig sy'n cael eu cynnig i'r cyhoedd. Er mwyn profi bod triniaeth yn gweithio'n well na (neu gystal â) thriniaeth sydd ar gael eisoes, yn gyntaf, mae'n rhaid i ymchwilwyr sicrhau cyllid i ymgymryd ag astudiaeth newydd. Mae gan STU ei Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil ei hun a nod pennaf y tîm hwn yw sicrhau y bydd ceisiadau am gyllid yn llwyddiannus.



Mae STU yn cyflawni hyn drwy:

- Gynnwys aelodau'r cyhoedd wrth gynllunio a gwerthuso ymchwil ar bob cam.
- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y JAG i sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynnal er lles gorau'r cyhoedd a'i bod yn cynnig gwerth am arian.
- Gweithio gydag ymchwilwyr i sicrhau bod canlyniadau astudiaethau'n cael eu lledaenu'n eang.



Mae staff STU yn mynychu cynadleddau a chyfarfodydd gan drafod canfyddiadau ymchwil â llunwyr penderfyniadau. Cyhoeddir adroddiadau STU mewn cyfnodolion a thynnir sylw atynt drwy'r cyfrifon Twitter @STU_Swan ac @RDCS_SWW fel ffordd o siarad ag ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd.

Crynodeb Gweithredol

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm wedi parhau i weithio gydag ymchwilwyr, arianwyr, llunwyr polisi, elusennau ac academyddion ledled Cymru a'r DU i ddarparu gwasanaeth ymatebol. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy ein Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) a'n Pwyllgor Cyngor ar Boblogaethau ar gyfer Ymchwil (PARC) mewnol. Dilyniir ein cyfrifon Twitter, @STU_Swan ac @RDCS_SWW gan dros 750 o unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn ymchwil i wasanaethau iechyd a'r gwaith rydym yn ei wneud.

Mae ein Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil yn parhau i dyfu; eleni gwnaethom gwrdd â 58 o ymchwilwyr a chyfrannu at 25 o geisiadau am gyllid. Mae ein gweithgarwch ymgysylltu â chydweithwyr gofal cymdeithasol yn tyfu ac mae'n bleser mawr gennym y bydd Ms Nicky Heady a Dr Julie Peconi yn gweithio i gynyddu proffil ymchwil gofal cymdeithasol yn STU.

Mae ein craffter wrth ddatblygu ein panel mewnol i gynnwys y cyhoedd, sef PARC, wedi dwyn ffrwyth gan ei fod wedi cyflymu'r broses o gynnwys y cyhoedd mewn ceisiadau am gyllid. Mae wedi cael ei gydnabod hefyd gan ymchwilwyr ledled Cymru sydd bellach yn creu eu paneli eu hunain yn seiliedig ar fodel PARC.

Rydym yn parhau i flaenoriaethu hyfforddiant staff er mwyn atgyfnerthu ein diwylliant o ansawdd ac arloesi. Dyfeisiodd a chynhaliodd ein tîm RDCS ddau ddigwyddiad pwll tywod gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST); cyfrannodd y tîm at weithdy ymchwil ar gyfer therapyddion galwedigaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; a darparodd hyfforddiant ymchwilydd ar gyfer bydragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd yn bleser mawr gennym gymryd rhan yn yr Ŵyl Wyddoniaeth a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Hydref.

Rydym yn hapus gyda'n twf a'n cynnydd eleni ac edrychwn ymlaen at ehangu ein portffolio ac at barhau i ysgogi gwelliannau iechyd yng Nghymru a'r tu hwnt yn y flwyddyn i ddod. Cawsom ein cefnogi yn y gwaith hwn gan ein haelodau newydd - Glyn Gainard, Steve Hiles a Kirsty Lanyon - sydd wedi ymgartrefu'n gyflym, gan ein cynorthwyo i gynnal nifer o astudiaethau a'n helpu i weithredu ein platfform rheoli data newydd, REDCap Cloud.

Roedd 2019-20 yn flwyddyn ar gyfer atgyfnerthu ein llwyddiannau diweddar, rhannu ein harbenigedd a chynllunio ar gyfer dyfodol Uned Dreialon Abertawe. Ym mis Rhagfyr, daeth Jane Luo o Ganolfan Gwerthuso ac Arolygu Cyffuriau Shanghai atom i wneud lleoliad er mwyn rhannu ei phrofiadau o reoli a llywodraethu treialon. Cyflwynasom gais i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ym mis Mai 2019 am gyllid estyniad, ac roeddem wrth ein boddau'n clywed ym mis Medi 2019 y bu ein cais yn llwyddiannus. Byddwn yn cyflwyno cais yn fuan i ailgofrestru gydag UKCRC.

Wrth gwrs, bu'n rhaid newid rhai pethau oherwydd COVID-19 ac rydym yn falch o'r ffordd gadarnhaol mae'r staff wedi addasu i'r sefyllfa. O ddiwrnod cyntaf y cyfyngiadau symud, rydym wedi derbyn ceisiadau di-baid am gymorth STU ac RDCS ac rydym yn gweithio gyda'n cydweithredwyr i gefnogi'r GIG a gofal cymdeithasol ac i adeiladu dyfodol ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ogystal, mae Greg wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â Gweithgor Rhannu Data'r Cynghrair Ymchwil Clinigol i COVID-19, a sefydlwyd ar ddechrau mis Ebrill i gyflymu ymchwil glinigol i COVID-19 mewn lleoliadau â phrinder adnoddau. Edrychwn ymlaen at adrodd ar hyn a'n holl waith ym maes COVID-19 y flwyddyn nesaf.



Greg Fegan
Athro Treialon Clinigol



Hayley Hutchings
Athro Ymchwil Gwasanaethau Iechyd

Cyfarwyddwr a Chyd-gyfarwyddwr Uned Dreialon Abertawe
Mehefin 2020

Pecynnau Gwaith (PG)

PG1: Datblygu a Rheoli'r Uned

Mae dau amcan gan y pecyn gwaith hwn: datblygu a chynnal a chadw systemau sy'n tanategu'r ymchwil a wneir gan yr Uned, ynghyd â'r strwythurau staffio a'r prosesau rheoli sydd ar waith i sicrhau bod y rhain o'r ansawdd uchaf.

YN Y FLWYDDYN DDIWETHAF:

Mae STU wedi cefnogi 3 chais llwyddiannus i alwad Isadeiledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cyflwynodd **Julie Peconi** a **Kayleigh Nelson** geisiadau am gymrodoriaeth ymchwil

Sicrhodd **STU**, fel aelod o gonsortïwm o bum uned dreialon UKCR, gyllid gan NIHR i ddatblygu gwybodaeth ar gyfer arferion rheoli data electronig

Gwahoddwyd **Hayley Hutchings** i ysgrifennu erthygl adolygu ar gyfer y cyfnodolyn Patient Reported Outcome Measures

Penodwyd **Alan Watkins** yn Athro Ymchwil e-Dreialon



DYFARNIADAU

Enillodd dau o'n myfyrwyr PhD, **Nicky Heady** ac **Oliver Richards**, wobrau am y poster gorau yng Nghynhadledd Ymchwil Ôl-raddedig Ysgol Feddyaeth Prifysgol Abertawe.



Enillodd **CRAFT** wobwr am Gydweithrediad Ymchwil ac Arloesi Rhagorol yng Ngwobrau Ymchwil ac Arloesi 2020 Prifysgol Abertawe am ei gydweithrediad â'r tîm Biospectrosgopeg ar ddiagnosis cynnar o ganser y coluddyn.

Cyrhaeddodd **Hayley Hutchings** restr fer y wobwr am Oruchwyliaeth Ymchwil Ragorol yng Ngwobrau Ymchwil ac Arloesi 2020 Prifysgol Abertawe



HYFFORDDIANT

Rhyngddynt, mae **Greg Fegan**, **Hayley Hutchings**, **Alan Watkins** a **Claire O'Neill** yn cefnogi 19 ymchwilydd ôl-raddedig. Eleni, cwblhaodd 2 o'r rhain a chawsant eu harholi'n llwyddiannus.

Cwblhaodd **Julie Peconi** hyfforddiant mewn dadansoddi cyfweiliadau ansoddol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Rhydychen.

Mae **Claire O'Neill** wedi derbyn hyfforddiant drwy raglen Arweinyddiaeth Sefydliad Aurora 2020.

Cwblhaodd ein haelodau staff newydd, **Steven Hiles**, **Kirsty Lanyon** a **Glyn Gainard**, hyfforddiant Ymarfer Clinigol Da a hyfforddiant craidd y Brifysgol.

Mae holl aelodau staff **STU** wedi dysgu sgiliau newydd a derbyn hyfforddiant llwybr carlam i'w galluogi i addasu'n gyflym i weithio gartref.

MAE STU YN YMRWYMEDIG I DDATBLYGU SGILIAU'R TÎM CYFAN:



Mae Claire Hurlow yn parhau i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am PARC sydd â 22 aelod, y penodwyd 4 ohonynt eleni



Mae Nadim Bashir a Timothy Driscoll yn helpu i ddatblygu adnoddau REDCap Cloud ar gyfer cymuned ehangach UKCRC

Mae Gail Holland yn aelod o Grŵp Gweithrediad Sicrhau Ansawdd UKCRC


Mae Timothy Driscoll yn parhau i dderbyn hyfforddiant Cymraeg lefel uwch ac mae'n darparu cymorth uniongyrchol i alluogi STU ac RDCS i gael presenoldeb dwyieithog yn y cyfryngau cymdeithasol



Mae Kym Thorne yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen PPI&E (Cynnwys ac Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd) UKCRC



Mae Claire Hurlow a Gail Holland yn parhau i gefnogi Uned Ymchwil Diabetes Cymru i ddefnyddio'r system rheoli dogfennau Q-Pulse



Mae STU yn parhau i'w meincodi ei hun yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd



Bu Vicky Davies, Gail Holland a Kym Thorne, gyda chymorth Julie Hepburn a Geoff Tanner, yn cynrychioli STU yng Ngŵyl Wyddoniaeth Abertawe eleni drwy reoli stondin rhyngweithiol, "Ymchwilio neu Chwilio", lle buont yn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gweithgareddau â thema ymchwil.



Roedd yn bleser mawr gennym gynrychioli STU yng Ngŵyl Wyddoniaeth Abertawe. Nod ein stondin oedd ymgysylltu â holl aelodau teulu a'u hannog i ddysgu rhagor am ymchwil. Roeddem yn rhan o'r broses o ymchwilio a chynllunio pa weithgareddau fyddai'n ddefnyddiol i ennyn diddordeb pob grŵp oedran ac, ar yr un pryd, eu haddysgu a gwella eu

ymchwil a'r hyn sydd ynghlwm wrth gyfranogi mewn ymchwil. Gwnaeth ein profiad o fod yn rhan o STU ein helpu i ymgymryd â rôl arweiniol wrth esbonio ymchwil i'r cyhoedd a sut gallent fod yn rhan o ymchwil a chyfranogi ynddi

-Geof Tanner & Julie Hepburn

PG2: Datblygu astudiaethau newydd

Mae STU yn ymrwymedig i weithio gyda thimau ymchwil sefydledig a chwilio am gyfleoedd i feithrin cysylltiadau ag ymchwilwyr newydd er mwyn nodi cydweithredwyr posib, gan arwain at geisiadau llwyddiannus am gyllid.

Yn ystod blwyddyn 2019-2020, rydym wedi llwyddo i ddatblygu nifer o astudiaethau gan gynnwys:

- Seicoleg gadarnhaol ar sail grŵp ar gyfer pobl sy'n byw gydag Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd (sy'n cael ei hadnabod fel Seicoleg Gadarnhaol)
- Asesu rhaglen hyfforddiant carlam strwythuredig mewn colonosgopeg ar gyfer Endosgopwyr Clinigol (Astudiaeth Moondance)

Mae Seicoleg Gadarnhaol yn astudiaeth dichonoldeb sy'n archwilio'r posibilrwydd o nodi a recriwtio 60 o bobl ag anaf caffaeledig i'r ymennydd a chwblhau ymyrraeth seicoleg gadarnhaol. Bydd yr astudiaeth hon yn ymchwilio i weld a oes angen hap-dreial wedi'i reoli'n llawn i asesu effeithiolrwydd seicotherapi cadarnhaol, gan ystyried agweddau clinigol a chost, ar gyfer pobl ag anafiadau caffaeledig i'r ymennydd

(Prif Ymchwilydd: Dr Andrew Kemp)



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Asesiad wedi'i ariannu gan Moondance o raglen hyfforddiant carlam strwythuredig ar gyfer endosgopwyr clinigol. Mae'r rhaglen aml-ganolfan hon yn asesu canfyddiadau endosgopwyr dan hyfforddiant a'u hyfforddwyr o'r rhaglen hyfforddiant colonosgopeg integredig bresennol, a'r nod yw darparu sylfaen ar gyfer cyrsiau hyfforddi'r dyfodol.

(Prif Ymchwilydd: Yr Athro Hayley Hutchings)



A GWNAETHOM YMATEB I ANGHENION BRYG YMCHWILWYR YN YSTOD PANDEMIG COVID-19

Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae dwy astudiaeth ar y gweill:

BRAVE

Prif Ymchwilydd:
Dr Ceri Battle

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe

Arolwg fforwm cleifion ac ymgynghorwyr UKCLL

Prif Ymchwilydd:
Nick York

Leukaemiacare.org.uk

AC RYDYM WEDI BOD YN DARPARU ARWEINIAD A CHYNGOR AR:

EPoC

1

Effaith pandemig COVID-19 a'r mesurau rheoli cysylltiedig ar iechyd meddwl gofalmwr pobl ag anableddau deallusol.

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Paul Willner, Swansea University

HIP-CoV

2

Archwiliad rhyngwladol o heparin ar waith - haint COVID-19.

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Hayley Hutchings & Dr Quentin Nunes, Prifysgol Lerpwl

ICE-COVID

3

Effeithlonrwydd proffylacsis ar ffurf chwistrelliad iotagarrageenan i'r trwyn ar gyfer ymarferwyr iechyd proffesiynol sy'n trin cleifion yn ystod pandemig COVID-19 - hap-dreial dwbl-ddall wedi'i reoli gan blasebo

Prif Ymchwilydd: Yr Athro Iain Whitaker, Swansea University

Arsylwi ar ôl- effeithiau COVID-19


5

Prif Ymchwilydd: Dr Matthew Morgan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Treial dichonoldeb wedi'i reoli gan gyfatebiaeth o therapi actifadu'r system ategol gan ddefnyddio'r atalydd c5 LFG316 i drin achosion difrifol sars-CoV2 (haint COVID-19).

Prif Ymchwilydd: Dr Matthew Wise, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

PG3: Goruchwyllo astudiaethau a ariennir



Yn ystod 2019/20, tyfodd portffolio dyfarniadau cyllid STU i dros £13M. Mae gan staff STU y profiad a'r arbenigedd sy'n angenrheidiol i ddatblygu, cefnogi a chyflawni prosiectau ymchwil o safon uchel. Rydym yn falch o gyflawni ymchwil sy'n cael effaith ar iechyd a lles pobl Cymru a'r tu hwnt.

**Mae uchafbwyntiau'r
PORTFFOLIO'n cynnwys:**

- 1 CTIMP
- 8 RCT arall
- 19 prosiect myfyriwr
- 2 Ddyfarniad Amser Ymchwil Glinigol (CRTA)
- 11 astudiaeth Llwybr i Bortffolio


** Mae'r diagram yn cyfeirio at astudiaethau a fu ar waith yn ystod 2019/20*

Diweddariadau pwysig o'n portffolio:

LungCAST

- Aelod staff wedi'i gyd-leoli
- 4239 o gleifion wedi'u recriwtio hyd yn hyn
- Datblygwyd cronfa ddata sydd wedi caniatáu proses ddi-dor o gofnodi data a thracio byw ar 43 safle yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



- 
- Astudio iechyd a lles pobl â ffibriliad atrïaidd sy'n cymryd meddyginiaethau i deneuo'r gwaed
 - Bydd yr astudiaeth yn asesu a yw digwyddiadau gwaedu'n cael effaith ar ansawdd bywyd cleifion â ffibriliad atrïaidd.
 - Recriwtio ledled Cymru, Lloegr a'r Alban

DESCANT

- 10 Ymddiriedolaeth y GIG ledled Cymru a Lloegr yn cymryd rhan
- 468 o gleifion â dementia cynnar a'u gofawyr
- Camau olaf dadansoddi ac ysgrifennu canfyddiadau




- Staff ar safleoedd wedi'u recriwtio ac wedi derbyn hyfforddiant yn yr ymyrraeth
- Safle cyntaf ar agor
- Datblygwyd astudiaeth COVID-19 i gynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl gofalwyr



- Asesu dwy dechneg cau ar gyfer cleifion sy'n derbyn llawfeddygaeth ar gyfer canser coloretrol
- 802 o gyfranogwyr wedi'u recriwtio o 27 safle yng Nghymru a Lloegr
- Dadansoddiad wedi'i gwblhau, adroddiad ym mis Mehefin 2020

PG4: Lledaenu ac ymgysylltu

Cydnabyddir tîm STU am eu cyfraniadau at ymarfer ymchwil a methodoleg o safon uchel ac mae staff yn cynrychioli'r Uned ar amrywiaeth o grwpiau a rhwydweithiau pellgyrhaeddol. Mae hyn yn gyflawniad gwych sy'n adlewyrchu proffesiynoliaeth a gwaith caled y tîm.



Ymgyrch Gofal Croen Cymru, #PeidiwchBodynGimwch mewn cydweithrediad ag STU. Y neges i'r cyhoedd oedd "byddwch yn ddiogel: diogelwch eich hun rhag yr haul - hyd yn oed ar draethau Cymru, defnyddiwch eli haul, gwisgwch hetiau mawr a chrys t, peidiwch â llosgi". Rhoddwyd cartŵn o gimwch yn lle'r ddraig goch ar faner Cymru a chwifwyd y baneri newydd mewn llawer o leoliadau adnabyddus yng Nghymru, gan gynnwys traethau, cestyll, Pont Hafren a Chanolfan y Mileniwm. Buom yn hyrwyddo'r ymgyrch yn ddwyieithog ar Twitter ac yn y cyfryngau.



Reframed - roedd y treial hwn yn cynnwys pobl â diagnosis o iselder ysbryd nad ydynt wedi ymateb i feddyginaeth na therapïau seicolegol safonol. Buom yn astudio eu hymateb i fath newydd o driniaeth â'r nod o newid ymddygiad beunyddiol, a dangosodd y canlyniadau fod pobl yn teimlo'n llawer gwell i ddechrau. Er i'r gwelliant hwnnw leihau 18 mis ar ôl y driniaeth, roedd y cyfranogwyr yn parhau i deimlo eu bod yn gallu adnabod eu symptomau iselder ac ymdopi â nhw'n well.



STUMBL - astudiaeth a asesodd ddichonoldeb defnyddio offeryn prognostig mewn adrannau brys i helpu i asesu a rheoli cleifion a oedd wedi cael trawma pŵl i'r frest. Awgrymodd y canfyddiadau y gallem recriwtio safleoedd a chleifion, bod yr offeryn yn ymarferol ac yn boblogaidd ymhlith clinigwyr a bodd modd casglu gwybodaeth ynghylch canlyniadau cleifion drwy holiadur gan gleifion a data o systemau clinigol. Awn ati nawr i gynllunio treial mawr - a cheisio cyllid ar ei gyfer - er mwyn canfod a fydd canlyniadau cleifion yn gwella wrth ddefnyddio'r offeryn prognostig hwn o'i gymharu â'r driniaeth arferol.



Mae STAFF STU yn cyfrannu at y grwpiau a'r rhwydweithiau ymchwil canlynol:

Llywodraeth a'r GIG



- Alan Watkins
- Greg Fegan
- Gail Holland
- Nadim Bashir
- Julie Hepburn (STU PPI)



- Alan Watkins
- Gail Holland



- Claire O'Neill
- Greg Fegan
- Gail Holland
- Kym Thorne
- Saiful Islam



- Alan Watkins
- Hayley Hutchings
- Saiful Islam
- Julie Hepburn

Trydydd Sector ac Eraill



- Greg Fegan



- Hayley Hutchings



- Gail Holland



- Claire O'Neill
- Hayley Hutchings



- Claire O'Neill



- Alan Watkins




- Alan Watkins



- Julie Peconi




Ymgysylltu â'r Cyhoedd




- Kym Thorne



- STU Team




- RDCS Team




- Vicky Davies
- Gail Holland
- Kym Thorne
- Julie Hepburn
- Geof Tanner


Academiaidd




- Alan Watkins
- Saiful Islam




- Greg Fegan




- Greg Fegan



- Hayley Hutchings
- Julie Hepburn



- Greg Fegan



- Hayley Hutchings

PG5: Cynyddu gallu ar gyfer ymchwil

Mae STU yn hynod falch o'i llwyddiant wrth helpu i feithrin ymchwilwyr newydd drwy gefnogi staff yn y sectorau gofal cymdeithasol a'r GIG.



Mae staff STU yn gweithredu fel goruchwylwyr a mentoriaid i fyfyrwyr PhD ac ymchwilwyr newydd; maent yn chwarae rhan weithredol mewn datblygu cydweithrediadau a nodi prosiectau newydd posib.

Mae STU yn derbyn adborth ardderchog:



Yr Athro Andrew Godkin, Gastroenterolegydd a Hepatolegydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Uned Dreialon Abertawe wedi bod yn ardderchog wrth weithio gyda ni i geisio sefydlu treial cam ll mewn canser colorefrol. Maen nhw wedi helpu, mewn modd amserol iawn, i ddatblygu cynllun a phrotocol ar gyfer y treial ac, yn bwysig, rydym wedi gallu cynnig treial sydd mor ddarbodus â phosib.



Dr Matthew Morgan, Ymgynghorydd Meddygaeth Gofal Dwys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae'r cymorth, yr arweiniad a'r wybodaeth a ddarparwyd i ni gyda phob cysylltiad â thîm STU wedi bod yn wych. Maen nhw'n rhagorol wrth ddod o hyd i ffyrdd o'n helpu i ddatrys problemau posib gyda'n hymchwil.



Yr Athro Susan J Moug, Arweinydd Is-arbenigedd Colorefrol ar gyfer Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr

Rwy'n hapus iawn gydag STU. Maen nhw wedi bod yn hynod gymwynasgar a chefnogol i'r llawfeddygon dan hyfforddiant/Barbwyr Cymru. Rydym yn awyddus i weithio gydag STU ar ragor o astudiaethau Ewropeaidd a datblygu treialon clinigol gyda nhw. Yn dilyn llwyddiant astudiaeth HART, mae gan STU arbenigedd cydnabyddedig ym maes treialon llawfeddygol ac uchelgeisiau i gael ei chydabod gan RCSEng.



Tom Dobbs, Cofrestrydd Llawfeddygaeth Blastig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae STU wedi rhoi cefnogaeth ardderchog i mi drwy gydol fy ngyrfa academaidd. Mae'r mentora a'r profiad rwyf wedi'u cael drwy ryngweithio ag STU wedi bod o gymorth mawr yn fy astudiaethau..

Mae STU yn ymgysylltu â chwmnïau a sefydliadau arloesol:

Rutherford Innovations

Mae ein holl ryngweithiadau ag Uned Dreialon Abertawe wedi creu argraff dda arnom. Maent bob amser wedi bod yn gymwynasgar ac yn wybodus wrth ymateb i'n hymholiadau ac rydym yn gobeithio cydweithredu â nhw yn y dyfodol agos.

- *Dr Ian Barwick, Prif Swyddog Gwyddonol, Rutherford Innovations Ltd*

Bristol Myers Squibb™

Nod yr astudiaeth ansawdd bywyd EQUAL-AF yw sicrhau bod gan lais y claf rôl ganolog pan wneir penderfyniadau ar dechnegau gwrthgeulo effeithiol mewn ffibriliad atriaidd. Mae STU wedi bod yn cydweithredu'n agos â Chynghrair BMS/Pfizer ers mis Ionawr 2020 i gynllunio a gweithredu'r astudiaeth ymchwil bwysig hon. Mae Pwyllgor Llywio'r astudiaeth wedi cynnwys yr arbenigwyr clinigol, methodolegol a chleifion cywir, a phan fydd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi, rydym yn disgwyl y byddant yn gwneud gwahaniaeth go iawn i gleifion a'r GIG.

- *Steven Lister, Uwch-economegydd Iechyd, Bristol Myers-Squibb*



Mae'n bleser mawr gweithio gyda Julie. Mae hi bob amser yn hynod broffesiynol a galluog ac ar yr un pryd, mae hi'n dod â sirioldeb a brwdfrydedd i bopeth mae hi'n ei wneud.

- *Paul Thomas, Cadeirydd Gofal Croen Cymru*



Yn ystod fy secondiad chwe mis gydag STU mae'r fîm wedi gwneud argraff gadarnhaol iawn arnaf gyda'u proffesiynoliaeth a'u gofal. Rwy'n ddiolchgar iawn iddynt am rannu arferion a phrofiadau'n agored â mi. Bydd dyfnder y cyfathrebu a haelioni pawb yn STU a'u hawgrymiadau o gymorth mawr i mi wrth greu system reoli tymor hir ar gyfer treialon yn Shanghai. Hoffwn fynegi fy niolch diffuant i'm holl gydweithwyr yn STU.

- *Jane Luo, Arolygydd, Adran GCP/GLP Canolfan Gwerthuso ac Arolygu Cyffuriau Shanghai*

PG6: Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil




Research Design
& Conduct Service
South West Wales

Gwasanaeth Cynllunio
a Chynnal Ymchwil
De Orllewin Cymru

Mae Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil (RDCS) De-orllewin Cymru yn wasanaeth cynghori ymatebol sydd ar gael i ymchwilwyr a gyflogir gan y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol a hoffai wneud cais am gyllid ymchwil. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo ymchwilwyr i ddatblygu ceisiadau o safon uchel am gyllid.

Mae adborth am y gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn:



Roedd y cymorth dderbyniol i'n hollol wych. Roedd y broses gymaint yn haws oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng fîm Claire a'r fîm ymchwil a datblygu yn Hywel Dda. Roedd gweld astudiaeth fach, nad oedd yn seiliedig ar arbrofion, yn datblygu ac yn troi'n rhywbeth mwy a gwell yn her ond gydag arbenigedd a chymorth y fîm, llwyddwyd i bontio'r bwch rhwng ymarfer clinigol ac ymchwil, sy'n anodd. Oherwydd eu polisi drws agored a'u hagwedd gefnogol a chyfeillgar, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi drwy gydol y broses. Mae eu cyfranogiad a'u cymorth wedi bod yn amhrisiadwy. Diolch o galon.


- Dr Meryl James, Prif Seicolegydd Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Rydym wedi bod yn ffodus iawn wrth greu cysylltiadau â'r fîm treialon yn Abertawe y llynedd. Mae Claire a'i thîm wedi bod yn hygyrch iawn a gwnaethon nhw ddarparu cyngor a chymorth amhrisiadwy i nifer o therapyddion galwedigaethol yn ein gwasanaeth. Mae hyn wedi galluogi'r rhai sy'n newydd i ymchwil i feddl yn fwy uchelgeisiol am sut gallwn ni ddatblygu syniadau ymchwil a chyfrannu at ymchwil yn ein maes. Maen nhw wedi ein hannog hefyd i feddl o ddifrif am gymwysterau academaidd pellach i gyflawni'r uchelgeisiau hyn a dwi'n gobeithio'n fawr y bydd gan therapi galwedigaethol ragor o gyfleoedd i weithio gyda'r fîm yn y dyfodol.

- Laura Ingham, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Arweinydd Ymchwil a Datblygu Therapi Galwedigaethol

Mae gennym gysylltiadau agos ag unedau RDCS eraill yng Nghymru, Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru, a LLAIS: Cefnogi Ymwybyddiaeth Isadeiledd Iaith. Drwy grŵp RDCS Cymru Gyfan, rydym wedi cael cyfle i arsylwi ar drafodaethau paneli cyllido i helpu i wella ein ceisiadau ni am gyllid.



Uchafbwyntiau RDCS

Eleni cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu newydd ac arloesol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a WAST.



We supported:

Mehefin

Pwll tywod ymchwil ar gyfer therapyddion galwedigaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bu 24 therapydd galwedigaethol yn bresennol a chyflwynodd un ohonynt gais cyntaf am ymchwil.

Cyfrannwyd at ddiwrnod astudio ymchwil Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gorffennaf

Pwll tywod cyntaf ar gyfer Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn edrych ar brofion pwynt gofal. Daeth parafeddygon a rheolwyr gofal heb ei drefnu o bob rhan o Gymru a Lloegr. Cefnogwyd y digwyddiad gan weithgynhyrchwyr profion pwynt gofal (POCT) masnachol

Gweithdy hanner diwrnod ar geisiadau RfPPB ar gyfer staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hydref


Cynrychioli RDCS De-orllewin Cymru ar stondin ar y cyd yng Nghynhadledd Flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Cynrychioli RDCS De-orllewin Cymru yng Ngŵyl Wyddoniaeth Abertawe (a gynhaliwyd yn Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe)

Rhagfyr

Gweithdy hanner dydd i fydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ddewis y cynllun ymchwil cywir. Cafwyd 2 gais am gymorth pellach o ganlyniad


Chwefror

Ail bwl tywod ar gyfer Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn edrych ar ddefnyddio profion pwynt gofal yn y gwasanaeth ambiwlans. Daeth parafeddygon a rheolwyr gofal heb ei drefnu o bob rhan o Gymru a Lloegr. Cefnogwyd y digwyddiad gan POCT masnachol




Gwnaethom barhau i gefnogi ceisiadau Llwybr i Bortffolio llwyddiannus y llynedd. O ganlyniad cafwyd 3 chais am gynllun cyllido Ymchwil er Lles y Cyhoedd a Chleifion eleni; 1 cais yn ail rownd Ymddiriedolaeth Wellcome ac 1 cais yn ail rownd dyfarniad y Gymdeithas Seicotherapi Siartredig

Cefnogodd RDCS ymchwilwyr ledled Cymru



Cyflawniadau Allweddol



Casgliadau ac Edrych i'r Dyfodol

Casgliadau


Dyfarnwyd statws uned treialon clinigol llawn i STU bron pum mlynedd yn ôl ac mae'r cyfnod ers hynny wedi bod yn brysur iawn. Mae STU wedi meithrin ei henw da ac wedi cael llwyddiant ar draws amrywiaeth eang o arbenigeddau.



“Ond wrth sôn am arbenigedd penodol ym maes treialon, ni allwch wneud yn well na thîm STU, oherwydd eu bod yn gwybod popeth sydd i'w wybod am gynnal treialon (!) ac mae'n bwysig gwneud pethau'n iawn. Waeth pa mor dda yw'r syniad, caiff ei wrthod os bydd rhywun yn sylwi ar agwedd benodol ar y treial sy'n anghywir ac yn dweud na fydd y treial yn effeithiol wrth ateb y cwestiynau allweddol ynghylch diogelwch ac effeithiolrwydd yr ymyrraeth. Rwyf wastad wedi eu hedmygu'n fawr [Hayley a Claire a'u cydweithwyr], bydd eu cyngor yn y maes hwn yn werth y byd.”

- Dom Parkes, Prifysgol Abertawe

Wrth i'n tîm dyfu, mae ein cyrhaeddiad a'n hallbynnau'n tyfu. Mae ein holl weithgareddau'n canolbwyntio ar uchafu buddion i ieuchyd a lles poblogaeth Cymru a'r gymuned ehangach



Ffigurau cronuss dros 5 mlynedd

Rydym yn awyddus bod twf ein portffolio yn cael ei reoli'n ofalus a'i fod yn cydweddu â'n cryfderau mewn cynllunio astudiaethau, rheoli data a chynnwys cleifion. Rydym wrth ein boddau bod ein cydweithwyr yn cael eu cydnabod ledled y DU am y gwaith hwn. Mae Nadim Bashir a Timothy Driscoll yn aelodau gwadd o grŵp defnyddwyr REDCap Cloud UK ac maent yn gweithio gyda'r grŵp i greu pecyn cymorth ar gyfer ei fabwysiadu a'i weithredu. Mae Kym Thorne yn arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd UKCRC sy'n datblygu cronfa ganolog o adnoddau PPI.



Edrych i'r Dyfodol

Mae ein llwyddiant wrth droi dyfarniadau Llwybr i Bortffolio yn geisiadau am gyllid yn galonogol ac, ar hyn o bryd, rydym yn edrych ymlaen at glywed am nifer o geisiadau am gyllid. Mae 5 o'n hastudiaethau Llwybr i Bortffolio Ymchwil lechyd a Gofal Cymru llwyddiannus yn aros am benderfyniadau cyllido; mae 2 ddarpar Gymrawd Ymchwil lechyd a Gofal Cymru ac 1 ymgeisydd am Gymrodoriaeth Uwch-ymchwilydd Ymddiriedolaeth Wellcome wedi cael eu gwahodd i gyfweiliadau. Mae astudiaeth RfPPB gynharach wedi cael ei hargymell gan NIHR am gyllid dilynol ac mae llawer o astudiaethau eraill yn yr arfaeth.

Ni fyddai crynodeb diwedd y flwyddyn yn gyflawn heb gydnabod effaith COVID-19 ar ein gweithrediadau. Yn ystod diwrnodau cyntaf y cyfnod cyfyngiadau, derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth STU ac RDCS, ac rydym yn gweithio gyda'n cydweithredwyr i gefnogi'r GIG a gofal cymdeithasol i ddatblygu ymchwil yn y maes hwn yng Nghymru. Mae gweithgarwch RDCS yn hanfodol o hyd i greu cysylltiadau ag ymchwilwyr newydd a sicrhau piblinell o gyllid i Gymru yn y dyfodol.





Swansea University
Prifysgol Abertawe

Swansea Trials Unit
Uned Dreialon Abertawe

Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe
Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP
Mae Prifysgol Abertawe'n elusen gofrestredig Rhif 1138342
T: 01792 606545
e: STU@swansea.ac.uk
<https://swanseatrialsunit.org/cy>

Diolch yn fawr i'r holl gydweithwyr yn STU a'r GIG a gyfrannodd at yr adroddiad hwn.
Diolch yn arbennig i Gail Holland, Claire Hurlow a Claire O'Neill a luniodd yr adroddiad..



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government